Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 19 Gorffennaf 2024

**TEITL:** Datganiad Llywodraethu Blynyddol

**AWDUR:** Hedd Vaughan-Evans, Pennaeth Gweithrediadau

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

Derbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Gofynnir i'r Bwrdd Uchelgais dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**3. RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel nodir isod.

**4. CEFNDIR A PHROSES**

4.1. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

4.2. Gofyniad Rheoliad 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Bwrdd Uchelgais.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol yn codi o'r adroddiad hwn.

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Datganiad Llywodraethu Blynyddol

**YMATEB SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya:**
“Rwy’n fodlon fod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchiad priodol o sefyllfa y Bwrdd Uchelgais fel Cyd-Bwyllgor.”

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**
“Rwyf yn fodlon fod y Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu Uchelgais Gogledd Cymru yn 2023/24, a bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn briodol. Mae’r datganiad yn cwrdd â’r gofyn i ddisgrifio fframwaith lywodraethu Uchelgais Gogledd Cymru, ac i asesu pa mor effeithiol mae’n gweithredu.”